# YMGYSYLLTU RHYNGWLADOL GWEINIDOGOL

## CHWEFROR 2025

| YMWELIADAU MEWNOL | |
|---|---|
| 12 Chwefror | **Ymweliad â Chymru gan wledydd Nordig a Benelux**<br>Cyfarfu Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio â Dirprwy Benaethiaid Cenhadaeth (DHM) o'r llysgenadaethau Nordig a Benelux. Pwrpas eu hymweliad oedd cael gwell dealltwriaeth o'r tirlun gwleidyddol yng Nghymru. |
| **YMWELIADAU ALLANOL** | |
| 12 Chwefror | **Cyfarfod y Prif Weinidog â 27 aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd**<br>Teithiodd y Prif Weinidog i Lundain i gwrdd â Phenaethiaid Cenadaethau 27 o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd sydd wedi eu lleoli yn Llundain. Cyn y cyfarfod, cynhaliodd y Prif Weinidog drafodaethau dwyochrog â Llysgennad yr UE i'r Deyrnas Unedig. |
| 25 Chwefror | **Ymweliad Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ag India**<br>Teithiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i India i gau Cymru yn India 2024 yn nerbyniad Dydd Gŵyl Dewi Mumbai, ailddatgan Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar recriwtio gofal iechyd gyda Llywodraeth Kerala, a chymryd rhan mewn trafodaethau lefel uchel gan gynnwys ar ofal iechyd, masnach a buddsoddiad.<br>Yr Ysgrifennydd Iechyd yn chwifio'r faner dros Gymru yn India \| LLYW.CYMRU |
| 25 Chwefror | **Derbyniad Dydd Gŵyl Dewi, Llundain**<br>Cyd-gynhaliodd y Dirprwy Brif Weinidog dderbyniad Dydd Gŵyl Dewi yn Llundain gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Digwyddiad rhwydweithio oedd hwn, gan roi cyfle i Lywodraeth Cymru hyrwyddo negeseuon allweddol o amgylch ein diwrnod cenedlaethol. |
| 25 Chwefror | **Derbyniad Dydd Gŵyl Dewi yn Llysgenhadaeth Slofacia, Llundain**<br>Aeth y Dirprwy Brif Weinidog i dderbyniad yn Llysgenhadaeth Slofacia i nodi Dydd Gŵyl Dewi. |
| 26 Chwefror | **Digwyddiad Cymru yn Llysgenhadaeth y Swistir, Llundain**<br>Ymunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio â derbyniad Wythnos Cymru a gynhaliwyd gan Lysgennad y Swistir i'r DU. Yn dilyn y derbyniad mynychodd Ysgrifennydd y Cabinet ddigwyddiad 'Buddsoddi yng Nghymru'r Dyfodol,' a chyfarfu ag Arglwydd Faer Llundain. |
| 27 Chwefror | **Derbyniad i ddathlu Pen-blwydd Ymerawdwr Japan**<br>Teithiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i Lysgenhadaeth Japan yn Llundain ar gyfer derbyniad i ddathlu pen-blwydd Ymerawdwr Japan. Cynhaliwyd y digwyddiad gan Lysgennad Japan i'r DU ac roedd yn gyfle i adeiladu ar lansiad diweddar blwyddyn Cymru/Japan. |